# Eisteddfod Gadeiriol Tregaron

Cynhaliwyd yr Eisteddfod ar Fedi 12fed a'r 13eg yn Neuadd Goffa Tregaron. Beirniaid y cystadlaethau lleol oedd Lindsay Cameron a Cadi-Beaufort Jones. Diolch i Sefydliad y Merched Tregaron am noddi'r gwobrau lleol ac i Cyril Evans, John Jones, Catherine Hughes, Lynda Thomas a theulu'r diweddar Mair Lloyd Davies am y gwobrau her. Enillwyd y cystadlaethau fel a ganlyn.

Unawd a Llefaru Meithrin - Moc Davies, Llanddewi Brefi.
Unawd a Llefaru Blwyddyn 1 a 2 – Mari Jones, Llanddewi Brefi.
Unawd Bl 3 a 4 ac enillydd yr unawdydd mwyaf addawol – Trefor Davies, Llanddewi Brefi.
Llefaru Bl 3 a 4 - Gwen Evans, Tregaron.
Llefaru Bl 5-6 – Arthur Evans, Tregaron.
Llefaru Bl 5-6 ac enillydd yr adroddwr mwyaf addawol - Gwion Lewis Hughes.
Barddoniaeth Bl 3 a 4 – Blake Poole, Llanddewi Brefi.
Barddoniaeth Bl 5- 6 – Megan Davies, Tregaron.
Celf Derbyn a Bl 1 – Isabella Parson-Cummings.
Celf Bl 2 – Ffloren Davies.
Celf Bl 3 a 4 ac enillydd yr arlunydd gorau – Jac Davies.
Celf Bl 5 a 6 - Ifan Lawlor.
Dawns 'Ni fydd y wal' - 'Curiad Caron' - Megan a Nel.

Cynhaliwyd yr Eisteddfod Agored ar y Dydd Sadwrn gyda'r beirniaid Glenys Roberts, Llundain, y Prifardd Tudur Dylan Jones a Heiddwen Tomos. Llywydd y dydd oedd Peredur Evans a chafwyd ganddo anerchiad gwerth ei chlywed. Diolch iddo ef a Delyth am eu cyfraniad hael.

Enillwyd yr Her Unawd gan Kees Huysmans, Llanbedr Pont Steffan a'r Her Adroddiad gan Sulwen Davies. Efan Williams, Lledrod aeth â gwobr yr Hen Ganiadau.

Unawd a Llefaru Cyfnod Sylfaen – 1. Leusa Ann Hatcher
Unawd Bl 3 a 4 - 1. Hanna Sisto, Gorsgoch. Llefaru Bl 3 a 4 – 1 Trefor Davies, Llanddewi Brefi.
Unawd offerynnol – 1. Ceinwen Green.
Unawd a Llefaru Bl 5 a 6 – 1. Arthur Evans.
Canu Emyn oed cyntadd – 1. Hanna Sisto
Unawd Bl 7-9 – Mali Jones
Unawd a llefaru bl 10-13 – Peredur Hedd Llywelyn
Unawd Cerdd Dant 7-13 – 1. Hanna Sisto.
Unawd Offerynnol 7-13 1. Elenor Nicholas
Canu Emyn bl 7-13 1. Peredur Hedd Llywelyn
Darllen darn o'r Ysgrythur – Magw Thomas
Canu emyn dros 60 1. Daniel Rees
Monolog – Peredur Hedd Llewelyn
Cân Bop neu allan o sioe Gerdd – Merched Soar
Her Unawd 18-30 oed - Osian Fish-Jenkins
Canu emyn 18-60 oed – Osian Fish-Jenkins
Côr – Merched Soar.
Sgen ti Dalent – Merched Soar
Parti Canu – Parti Soar
Yr Her Unawd – Keys Huysmans
Yr Her Adroddiad – Sulwen Davies
Cenwch im yr Hen Ganiadau – Efan Williams

Cipiwyd y gadair  mewn cystadleuaeth gref gan Anwen James, Llangeitho am gerdd dan y teitl 'Cysgod' a ysbrydolwyd gan stori gefndirol enillwyr y goron a'r gadair yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam eleni. Steffan Nicholas o Aberystwyth aeth â Thlws yr Ifanc i rai dan 21 oed am ysgrif yn seiliedig ar fynd i gerdded yn Santiago.

Llenyddol:  Megan Richards, Aberaeron ( Ysgrif a Limerig ); Enfys Hatcher Davies, Llanddewi Brefi (Pennill Telyn a Brawddeg); Delyth Ifan, Talybont  ( Llên Meicro);  Gwenno Jones, Ysgol Henry Richard (Cerdd Bl 7-11); Cystadleuaeth i Ddysgwyr -1. Martin Ivers, Llanrhystud.   1. Catrin Fflur Huws (Stori Fer).   Siw Hartson, Llundain – (Telyneg).

Gwerthfawrogwyd cyfraniad Merched Soar i'r cystadlaethau ar y nos Sadwrn gan iddynt gyfoethogi'r noson. Diolch hefyd i Ysgol Henry Richard am drefnu'r cystadlu lleol ac i bawb a sicrhaodd lwyddiant yr Eisteddfod mewn pob ffordd posib.